

# Inclusion

## Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

## Canllaw i Blant a Phobl Ifanc

CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

# Cyflwyniad

## Mae pethau'n newid!




Mae pethau'n newid i blant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig.

Ni fyddwn ni'n clywed am Anghenion Addysgol Arbennig bellach a byddwn yn clywed a defnyddio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Bydd yn cymryd ychydig o amser i'r holl newidiadau ddigwydd. Fe wnaethant ddechrau digwydd ym mis Medi 2021 a byddant yn cymryd 3 blynedd.

Mae pawb am i ni wneud yn dda iawn, a bydd y system newydd yn disgwyl i ni gael syniadau gwych ar gyfer ein dyfodol a bydd yn sicrhau ein bod yn cael y gefnogaeth orau i'n helpu i wireddu ein breuddwydion.



Mae angen cefnogaeth ar bob un ohonom gyda rhai pethau yn yr ysgol. Mae angen i rai ohonom ddefnyddio offer fel Numicon a matiau geiriau i'n helpu ni. Mae rhai ohonom yn ymuno â phlant eraill mewn grŵp bach i gael help ychwanegol gyda darllen, ysgrifennu neu Fathemateg.

Mae gwahanol ysgolion yn helpu eu plant a phobl ifanc mewn gwahanol ffyrdd.

Mae'r rhan fwyaf ohonom ni'n gwneud yn dda iawn gyda'r math hwn o help.



Fodd bynnag, bydd gan nifer fach ohonom ni ADY, sy'n golygu y bydd angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol arnom. Mae Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol ar ben yr hyn sydd yno i gefnogi pawb, ac yn wahanol.

# Felly...


## mae hyn yn golygu...




Ers mis Medi 2021, mae Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi'i ddefnyddio yn hytrach nag Anghenion Addysgol Arbennig, i'r rheini ohonom ni rhwng 0 a 25 oed sydd angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol i'n helpu i ddatblygu. Mae'n bosibl y bydd angen darpariaeth arnom ni oherwydd ein bod ni'n cael anhawster wrth ddysgu neu oherwydd bod gennym ni anabledd.



Wrth gwrs, rydym ni i gyd yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd, ac mae'r math o gefnogaeth sydd ei hangen arnom yn newid yn aml. Byddwn ni'n cymryd rhan mewn sgyrsiau am ein cynnydd, a pha fath o gefnogaeth fyddwn ni'n ei chael nawr ac yn y dyfodol.








Os byddwn ni'n teimlo bod gennym ADY o bosibl, dylem ddweud wrth oedolyn rydym ni'n ymddiried ynddyn nhw adref neu yn yr ysgol.

Yna bydd ein hysgol yn dechrau meddwl a oes gennym ni ADY neu beidio. Bydd hyn yn cymryd 35 diwrnod, oni bai bod angen help gan bobl eraill ar ein hysgol, fel y gwasanaeth iechyd neu'r awdurdod lleol. Os byddan nhw angen help, gall gymryd 12 wythnos arall iddyn nhw benderfynu.



# Rhai pethau y gallem ni eu clywed yw...

## Darpariaeth gyffredinol

Darpariaeth gyffredinol yw enw'r gefnogaeth y gallwn ni i gyd ei chael yn yr ysgol, os oes ei hangen arnom ni. Gallai hyn fod ar ffurf cefnogaeth yn y dosbarth, mewn grŵp bach neu dim ond i ni ar ein pen ein hunain.





## Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol

Os byddwn ni'n cael problemau yn yr ysgol, mae'n bosibl y bydd angen cefnogaeth ychwanegol/wahanol arnom i'n helpu i wneud cynnydd. Os felly, Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol yw'r enw ar hyn. Os oes gennym Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol, mae hyn yn golygu bod gennym ni ADY a bydd angen Cynllun Datblygu Unigol arnom ni.



# Cynllun Datblygu Unigol (CDU)





Mae Cynllun Datblygu Unigol yn disodli Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig, ac mewn rhai achosion Cynllun Addysg Unigol. Os bydd angen un o'r rhain arnom, bydd pawb yn helpu i'w ysgrifennu, ond mae'n rhaid iddyn nhw gofio mai ni yw'r unigolyn mwyaf pwysig yma.

O leiaf unwaith bob blwyddyn, bydd pawb yn dod at ei gilydd gan gynnwys ni a'n rhieni neu ofalwyr, i edrych ar y CDU a gwneud unrhyw newidiadau. Os bydd unrhyw un yn teimlo bod angen i ni gyfarfod cyn hynny, mae hynny'n bosibl.

Mae'n bwysig bod ein CDU yn dweud beth yw ein Hanghenion Dysgu Ychwanegol, beth rydym ni am ei gyflawni a'i fod yn cynnwys targedau i'n helpu ni i wneud hyn.

Y rhan fwyaf o'r amser, bydd ein CDU yn cael ei ysgrifennu gan ein hysgol, ond weithiau, bydd angen i'r awdurdod lleol ei ysgrifennu.

# Some things we may hear are...


## Ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Mae hyn mor bwysig ac mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ALNET) a Chod ADY Cymru yn gwneud hyn yn glir iawn.

Mae hyn yn ymwneud â chofio mai ni yw'r unigolyn mwyaf pwysig, pan fydd pobl eraill yn meddwl am beth sydd ei angen arnom, a chynllunio beth i'w wneud i'n helpu ni.

Mae'n rhaid i ni fod yn rhan o ddweud beth sy'n bwysig i ni ac ar ein cyfer ni, ac wrth gynllunio ein cefnogaeth.

Byddwn ni'n rhannu ein gobeithion a'n breuddwydion ac mae'n rhaid meddwl am rhain.







Pan fydd pawb yn dod at ei gilydd i adolygu ein CDU, dylai hyn gael ei wneud mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i'n helpu i gyflawni ein nodau, gyda thargedau i'n helpu ni i wneud hyn.



# Beth os nad ydym ni'n hapus?




Os nad ydym ni'n hapus gyda'r hyn mae ein hysgol wedi penderfynu, dylem ofyn am gael trafod hyn gyda nhw. Os nad ydym ni'n hapus o hyd, gallwn ni neu ein rhieni/gofalwyr ofyn i'r awdurdod lleol feddwl am hyn i ni. Gallwn anfon e-bost at: ALN@flintshire.gov.uk.

Gall gymryd hyd at saith wythnos i'r awdurdod lleol wneud hyn. Byddan nhw'n meddwl am yr holl wybodaeth mae'r ysgol wedi'i rhoi iddyn nhw, a phenderfynu ydyn nhw'n cytuno neu beidio.







Os bydd yr awdurdod lleol yn anghytuno, gallan nhw ddweud wrth ein hysgol i ysgrifennu CDU i ni a gofalu amdano, neu newid yr un maen nhw wedi'i ysgrifennu eisoes.

Os nad ydym ni'n hapus gyda'r hyn mae'r awdurdod lleol yn ei benderfynu, gallwn gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Gallwn gael rhagor o wybodaeth o'r wefan hon: https://specialeducationalneedstribunal.gov.wales/ Person-Centred Practice



Os bydd angen help arnom, gallwn gysylltu â

SNAP Cymru:

Cyswllt ar-lein:
https://www.snapcymru.org/contact

Rhif ffôn: 0808 801 0608
Ffôn symudol: 0345 120 373

## Taflen wedi'i chreu gan Ysgol Bryn Coch Aelodau Cyngor yr Ysgol gan ymgynghori â'u cyfoedion